**LC141**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

LEGISLATION COMMITTEE REPORT

**Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**
Mae adran 108 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ("y Ddeddf") yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau yn awdurdodi talu grantiau i bersonau ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i reoliadau o'r fath ddarparu bod y grantiau'n daladwy i unigolion y mae ganddynt "gyfrifon" sy'n gymwys o dan adran 104 o'r Ddeddf, neu sy'n bartïon i drefniadau sy'n gymwys o dan adran 105, yn unig.

Yn unol ag adran 105 o'r Ddeddf mae'r Rheoliadau'n diffinio "trefniadau cymwys" ac yn pennu bod rhaid iddynt gael eu gwneud rhwng "person cymwys" a "gweinyddydd cyfrifon dysgu". Mae'r Rheoliadau'n diffinio "person cymwys" a "gweinyddydd cyfrifon dysgu".

Pan fydd "person cymwys" yn gwneud "trefniadau cymwys", mae'r "person cymwys" yn dod yn "ddeiliad cyfrif dysgu unigol".

Yn unol ag adran 108 mae'r Rheoliadau yn darparu y gall "deiliad cyfrif dysgu unigol" fanteisio ar grant ar gyfer addysg neu hyfforddiant penodedig. Gall y grant gael ei dalu yn ôl y symiau a'r rhandaliadau a wêl y Cynulliad yn dda.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor gyfle cynnar i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau ac o ganlyniad cafodd nifer o faterion eu datrys a chafodd nifer o ddiwygiadau eu gwneud.

## Sylwadau Cyffredinol

**Nodyn Esboniadol**
Mae ail baragraff y Nodyn Esboniadol yn datgan fod Rheoliad 3 yn gymwys i bersonau sy'n preswylio yng

Nghymru "ond yn preswylio y tu allan i'r Deyrnas Unedig adeg cofrestru ond preswylio'n gyffredin yng Nghymru". Gofynodd Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor sut yr oedd hyn yn effeithio ar bobl a oedd yn preswylio'n gyffredin yng Nghymru ond yn preswylio y tu allan i Gymru *ac o fewn y Deyrnas Unedig*. Diwygiwyd Rheoliad 3 o ganlyniad, ond yn anffodus ni newidiwyd y cyfeiriad cyfatebol yn y Nodyn Esboniadol. Gan fod y Nodyn er gwybodaeth yn unig, gellir newid hyn pan fydd y Rheoliadau yn cael eu printio.

**Rheoliad 2**
Dyma’r ddarpariaeth sydd, ar y cyd â Rheoliadau 3 a 4, yn cyflawni’r gofyniad i wneud Rheoliadau sy’n codi o dan adran 105(2) o’r Ddeddf.

Gan fod adran 105(2) yn cyfeirio at amodau a bennir mewn rheoliadau, byddai ffurf y rheoliadau wedi cyd-fynd yn well â’r per galluogi pe bai Rheoliad 2 ar ffurf rhestr o amodau.

Ceir "s" goll ar ddiwedd "condition" yn Rheoliad 2(3) hefyd.

**Rheoliad 5**
Mae’r cwestiwn wedi’i godi a yw’r Rheoliadau yn bodloni gofyniad adran 108(2) (a) ac (c). Mewn ymateb, cyfaddefwyd nad ydynt, a hynny am fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth (y breiniwyd y swyddogaeth ynddo dros Gymru a Lloegr ill dwy) heb wneud rheoliadau sy’n diffinio "cyfrifon cymwys" ar gyfer adran 104.

Mae adran 108(2) yn gofyn yn benodol fod rheoliadau a wneir o dan adran 108 yn gorfod darparu mai dim ond i’r unigolion canlynol neu mewn perthynas â hwy y gall grantiau gael eu talu –

(a) unigolion sy’n dal cyfrifon sy’n gymwys o dan adran 104

(b) unigolion sy’n bartïon i drefniadau sy’n gymwys o dan adran 105, neu

(c) unigolion y mae ganddynt gyfrifon o’r fath ac sy’n bartïon i drefniadau o’r fath.

Er hyn, cyhyd ag na fydd adran 104 yn weithredol am nad yw’r rheoliadau perthnasol wedi’u gwneud, derbynnir nad oes angen i’r Rheoliadau presennol gynnwys darpariaeth sy’n cydymffurfio ag adran 108(2)(a).

Awgrymir serch hynny y gellid bod wedi cynnwys darpariaeth o’r fath. Byddai hynny’n sicrhau bod y Rheoliadau yn cydymffurfio ag adran 108(2)(a) ac (c) cyn gynted ag y caiff Rheoliadau eu gwneud o dan adran 104.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

**28 Tachwedd 2000**